Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Stradey Park House**

**61 New Road**
**Llanelli**
**SA15 3DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/07/2024

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.**
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Stradey Park House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | STRADEY PARK CARE HOMES LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Mehefin 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth y maent yn ei gael. Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff cyfeillgar a gofalgar, y maent wedi meithrin cydberthnasau deallgar â nhw. Wrth drafod y gwasanaeth, dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *"This is a great place to work, I've been here for years and hope to carry on for years. It's the best care place I've ever worked in".*

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn gyfforddus. Mae gwelliannau i'r adeilad wedi cael eu cwblhau ac mae cynlluniau ar waith i barhau â'r rhain ym mhob rhan o'r cartref. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant a defnyddio'r ardaloedd cymunedol i ymlacio a rhyngweithio â'i gilydd, gyda'u hymwelwyr a'r staff.

Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn gwerthfawrogi arweinyddiaeth a chefnogaeth y rheolwr yn fawr iawn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl a'u gweithwyr cymorth. Defnyddir adborth o'r ymweliadau hyn a'r archwiliadau mewnol i lywio ei adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis.

## Llesiant

Mae'r bobl yn gadarnhaol am y gwasanaeth a'r cydberthnasau y maent wedi'u meithrin â'r gweithwyr cymorth. Mae dewisiadau a llesiant y bobl wrth wraidd y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r rheolwr yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau unigol y bobl wrth gynllunio eu gofal. Mae'r bobl yn cadw mor iach â phosibl am fod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau personol.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom lawer o ryngweithio sensitif a charedig drwy gydol yr arolygiad.  Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y bobl yn cael y wybodaeth gywir mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Gall y bobl hefyd siarad â rhai o'r staff yn Gymraeg neu Saesneg fel y mynnant.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r gweithwyr cymorth yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Caiff y bobl eu diogelu oherwydd prosesau recriwtio'r gwasanaeth ac mae'r staff yn cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r bobl yn cael y cymorth cywir oherwydd yr hyfforddiant effeithiol a'r rhaglenni datblygu, sy'n galluogi'r gweithwyr cymorth i ddiwallu anghenion y bobl.

Mae'r bobl yn gyfforddus ac yn gartrefol gan eu bod yn byw mewn cartref sy'n eu cefnogi i gyflawni llesiant da. Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn dewis ble y maent am dreulio eu hamser. Mae ardaloedd ar gael iddynt dreulio amser gyda'i gilydd, eu hymwelwyr a'r tîm o staff. Caiff y bobl eu cefnogi i fod yn aelodau gweithredol o'u cymuned leol.

Mae'r bobl yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol yn dda ac mae ganddynt lais gan eu bod yn siarad ag ef yn agored pan fydd yn ymweld â'r gwasanaeth. Mae adroddiadau chwarterol yr Unigolyn Cyfrifol ar ymweliadau yn canolbwyntio ar y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u llesiant. Ymgynghorir â'r bobl, eu cynrychiolwyr, y staff a'r gweithwyr proffesiynol fel rhan o'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y maent yn ei gael. Cânt eu cefnogi'n effeithiol gan dîm o staff y maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Gwelsom lawer o ryngweithio amyneddgar, cyfeillgar a gofalgar rhwng y bobl a'r staff drwy gydol yr arolygiad. Ceir ymdeimlad teuluol yn y gwasanaeth ac mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan dîm o staff angerddol a llawn dealltwriaeth. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *“The guys are like our family and that’s the feel of the place”.*

Caiff y gweithwyr cymorth eu harwain gan gynlluniau personol manwl sy'n canolbwyntio ar annog y bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r bobl wrth wraidd eu cynlluniau a cheir ffocws ar gryfderau'r bobl, yr hyn y gallant ei wneud drostynt eu hunain a lle y bydd angen cymorth arnynt. Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr, y staff a'r gweithwyr proffesiynol eu cynnwys wrth ysgrifennu'r cynlluniau, fel eu bod yn berthnasol ac yn diwallu anghenion y bobl. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau a roddir ar y bobl yn cael eu gwneud yn gyfreithiol, a bod y ddogfennaeth gywir ar waith. Mae asesiadau risg cadarnhaol yn helpu i gadw pobl yn iach tra'n eu hannog i fod mor heini â phosibl. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd gan y rheolwr a gall y gweithwyr cymorth wneud newidiadau i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion unigol y bobl. Caiff arweiniad gan y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ei adlewyrchu mewn cynlluniau a gwelsom y gweithwyr cymorth yn cydymffurfio â hun yn ystod yr arolygiad.

Mae'r systemau storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol. Mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff meddyginiaeth ei rheoli'n briodol a bod y staff yn cymryd amser i roi'r dosau cywir o feddyginiaeth i'r bobl ar yr amser cywir. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym am y cymorth ardderchog a gafodd gan ei weithiwr allweddol i ddilyn cynllun bwyta'n iach, ac nad oes angen meddyginiaeth arno i reoli ei ddiabetes mwyach.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i annog y bobl i fod mor egnïol a chymdeithasol â phosibl drwy wneud pethau sy'n bodloni eu dewisiadau unigol. Mae'r bobl yn mwynhau gweithgareddau rheolaidd yn y cartref fel gwylio'r teledu, chwarae gemau cyfrifiadurol, rhyngweithio â'i gilydd a'u hymwelwyr a threulio amser tawel ar eu pen eu hunain. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn eu cymuned leol fel bod yn aelodau o glybiau chwaraeon, siopa, bwyta allan a chwrdd â'u ffrindiau a'u teulu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn gartrefol ac yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau unigol. Mae'r bobl yn gyfforddus iawn ac yn gartrefol yn yr ardaloedd cymunedol a'u hystafelloedd eu hunain. Ceir llawer o ardaloedd gwahanol i'r bobl gymdeithasu â'i gilydd a gyda'u hymwelwyr, neu dreulio amser yn ymlacio'n dawel. Mae ystafelloedd unigol y bobl wedi'u personoli ac mae'r bobl yn eu haddurno fel y mynnant gyda'u dodrefn, eu lluniau a'u llenni a'u deunyddiau eu hunain. Gwneir defnydd da o'r safle diogel a hygyrch ac mae'r bobl yn mwynhau rhyngweithio â'u cymdogion yn yr ardd gymunedol.

Mae'r darparwr yn gweithio i gwblhau cynllun i adnewyddu'r cartref yn llawn. Mae'r ardal awyr agored wedi cael ei phaentio, mae'r hen swyddfa wedi cael ei throi'n ystafell wely hygyrch ac mae'r ystafell gawod i fyny'r grisiau wedi cael ei hadnewyddu. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym am ei gynlluniau i osod llawr newydd yn yr ardal batio, addurno'r ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol a gosod carpedi newydd ym mhob rhan o'r cartref.

Mae gan y darparwr systemau cadarn ar waith i sicrhau y caiff archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd o'r eiddo eu cwblhau. Mae'r staff yn cwblhau'r profion gofynnol ar y cyfarpar diogelwch tân. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau iechyd a diogelwch yn rheolaidd. Mae'r Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng yn gyfredol ac ar gael mewn argyfwng.

Mae'r gegin wedi cael sgôr o 5 ar gyfer hylendid bwyd. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl a chânt eu hannog i gynllunio a pharatoi eu prydau, a siopa ar eu cyfer.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn adnabod y bobl yn dda. Mae systemau effeithiol ar waith i helpu'r darparwr i wella ansawdd y gwasanaeth y mae'r bobl yn ei gael. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adroddiadau cynhwysfawr ar ymweliadau bob chwarter, ac mae ei drafodaethau â'r bobl a'r staff yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol. Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr, y staff a'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eu cynnwys yn yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae'r adborth hwn a'r camau gweithredu yn dilyn unrhyw wersi a ddysgwyd yn helpu'r Unigolyn Cyfrifol i wella ansawdd y gwasanaeth ar gyfer y bobl.

Mae gan y rheolwr systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod y ddogfennaeth yn gywir ac yn cefnogi'r staff i alluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r rheolwr fel arfer yn rhannu ei amser rhwng gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl a chyflawni ei ddyletswyddau gweinyddol. Fodd bynnag, yn fwy diweddar mae wedi dechrau treulio mwy o amser gyda'r bobl oherwydd problemau recriwtio y mae llawer yn y sector yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r rheolwr yn arwain drwy esiampl ac wedi creu diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n adnabod y bobl yn dda; gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cyfeillgar a charedig rhyngddo ef a'r bobl.

Mae'r gweithwyr cymorth yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ac yn gwerthfawrogi'r arweinyddiaeth gefnogol yn y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym *“[Rheolwr] is always there for us, no matter what”, “the door is always open and we can talk to [Rheolwr] about anything” “She is very accommodating and finds a way to make things work”.*

Mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff y gwiriadau recriwtio a fetio gofynnol eu cynnal cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r broses sefydlu effeithiol yn sicrhau bod aelodau newydd o staff yn barod i ddechrau cefnogi'r bobl yn llwyddiannus. Mae rhaglenni hyfforddiant parhaus creadigol yn helpu i gefnogi'r gweithwyr cymorth i ddiwallu anghenion y bobl yn llwyddiannus, a gwnaethant ddweud wrthym, *“The face-to-face training is really good and a great refresher”.* Mae'r gweithwyr cymorth yn cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn cael eu hannog i feithrin sgiliau pellach drwy gymwysterau proffesiynol.

Mae'r tîm o staff angerddol a chefnogol wedi cydweithio i sicrhau bod niferoedd digonol o weithwyr gofal ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae aelodau craidd y tîm o staff wedi gweithio yn y gwasanaeth am flynyddoedd; maent yn adnabod y bobl yn dda ac yn deall eu hanghenion penodol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/09/2024